

Gwers 35 – Y Dyn Dall

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Luc 18:35–43

Erbyn hyn, y mae Iesu ar ei daith olaf i Jerwsalem ac yn y bennod hon y mae Iesu'n cyfarfod â nifer o unigolion, pob un ag angen arbennig a dim ond Iesu allai ddelio â phob un. Cyfiawnder yn y llys oedd problem gwraig weddw. Camagraff ynghylch gweddi oedd problem y Pharisead. Cariad tuag at gyfoeth oedd problem llywodraethwr ifanc. Dallineb oedd problem y dyn hwn tu allan i Jericho.

Y mae Mathew (Mathew 20:29–34) a Marc (Marc 10:46–52) yn ogystal â Luc yma yn cofnodi hanes Iesu'n rhoi golwg yn ôl i ddyn dall yn Jericho. Y mae Mathew'n sôn am ddau ddyn dall, ac, fel yn efengyl Luc, un dyn dall sydd yng nghofnodiad Marc. Marc yn unig sy'n enwi'r dyn, '...yr oedd mab Timeus, Bartimeus, cardotyn dall, yn eistedd ar fin y ffordd' (Marc 10:46). Nid oes amheuaeth ymhlith ysgolheigion bod y tri efengyllydd yn cyfeirio at yr un digwyddiad. Os oedd dau ddyn dall, y mae'n debygol mai Bartimeus oedd yr amlycaf oherwydd ef alwodd ar Iesu.

Synhwyrodd y dyn dall gynnwrf ymysg y bobl ac wedi holi, canfyddodd mai Iesu oedd yn mynd drwy'r dref, ac er i rai geisio ei dewi, galwodd 'Iesu, Fab Dafydd, trugarha wrthyf' (Luc 18:38). Roedd y gair am Iesu fel iachawr yn amlwg yn mynd o'i flaen ac achubodd y dyn dall ar y cyfle i gael ei iacháu.

Mae'r defnydd o'r term 'Mab Dafydd' yn ddiddorol, oherwydd ei fod yn derm Meseianaid, (gweler hefyd Luc 20:41). Yr oedd Eiseia wedi proffwydo y byddai'r Meseia yn agor 'llygaid y deillion a chlustiau'r byddariaid' (Eiseia 35:5) ac ar ddechrau ei weinidogaeth yr oedd Iesu wedi dweud, 'Heddiw yn eich clyw chwi y mae'r ysgrythur hon wedi ei chyflawni', (Luc 4:21). Nid yw Iesu'n ymwrthod â'r term ac felly yn cydnabod mai ef yw'r Meseia a'i fod ar ei ffordd i farw fel yr Anfonedig un.


Y mae cwestiwn Iesu i'r dyn dall, 'Beth yr wyt ti am i mi ei wneud iti?' (Luc 18:41), yn od, ond yr oedd Iesu am roi cyfle i'r dyn i ddatgan ei ffydd, h.y. beth oedd ef yn credu y gallai Iesu ei wneud iddo. Ymateb Iesu oedd, 'Derbyn dy olwg yn ôl: dy ffydd sydd wedi dy iacháu' (Luc 18:42).

Afiechydon

Yn nyddiau Iesu, yr oedd afiechydon yn broblem fawr fel yr awgryma Marc 1:29–34, gyda'r gwahanglwyf, colera, dropsi, dallineb, byddardod, epilepsi a chloffni yn amlwg. Credai'r Iddewon fod cysylltiad rhwng pechod ac afiechyd ac yn ansicr ynghylch meddygon. Er hynny roedd yn rheidrwydd fod meddyg ym mhob tref. Nid oedd meddyginiaeth ar gael i bob dioddefwr, ac anwybyddai'r bobl eu cyfrifoldeb i ofalu am yr anghenus (Lefiticus 25:35). Nid oedd gan Marc fawr o feddwl o feddygon (gweler Marc 5:26)

Cardotwyr

Oherwydd fod y rhan fwyaf o alwedigaethau'r dydd yn golygu llafur corfforol, gorfodid unrhyw un gydag afiechyd neu anabledl difrifol i gardota. Gwelid cardotwyr yn aros ar y strydoedd yn arwain i'r trefi a'r dinasoedd, oherwydd yno yr oeddent yn debygol o gyfarfod â llawer o bobl, yn enwedig ar y Sabbath. Ni allai cardotyn osgoi'r ffordd israddol hon o fyw.



Mae lesu'n iacháu dyn nad oedd yn gallu cerdded.

Pam ollyngodd ffrindiau'r dyn ef i lawr drwy'r to? Fedri di ddod o hyd i'r camgymeriadau doniol yn y llun?

Cei ddarlenn yr hanes yn Marc 2:1-12.

Gwers 35 – Y dyn dall

Fi yw goleuni'r byd | Ioan 9

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 148



Gwers 35

Y dyn dall

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Y dyn dall tud 148

BEIBL LLIW STORI DUW

Bartimeus ddall tud 257

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Rydw i'n gallu gweld tud 110

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Fi yw'r goleuni tud 167

BEIBL BACH I BLANT

Rydw i'n gweld tud 410

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

Bartimeus ddall tud 356

I ddechrau

Gêm arian mewn powlen.

Bydd angen powlen a darnau 5c, 20c, 50c a £1.

Gofynnwch i'r dosbarth a ydynt wedi gweld person yn cardota ar stryd erioed. Eglurwch fod y stori o'r Beibl yr wythnos hon yn dweud hanes dyn a oedd yn gorfod cardota oherwydd ei fod yn ddall ac yn methu gweithio. Gofynnwch i'r dosbarth ddychmygu cardotyn yn eistedd ar ochr stryd yn gofyn i bobl am arian. Byddai'n clywed arian yn cael ei daflu i mewn i'w fowlen. Taflwch y gwahanol ddarnau arian i mewn i'r fowlen er mwyn i'r plant glywed y sain. Yna ewch i sefyll y tu cefn i blentyn fel na all weld y fowlen. Taflwch un darn o arian i mewn a gofynnwch i'r plentyn ddyfalu faint o arian a roddwyd iddo.

Neu,

Gêm i'r plant iau.

Bydd angen mwgwd a nifer o eitemau, e.e. llwy, batri, pensel, peg.

Rhowch y mwgwd am lygaid plentyn ac yna gofynnwch iddo deimlo un o'r eitemau a dyfalu beth ydyw.

Yr hanes

Darllenwch hanes y dyn dall o'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau ar y Rhestr Adnoddau.

Atgyfnerthu'r stori

Beth am arwain y plant hÿn i actio'r hanes drwy roi cyfarwyddiadau (y geiriau mewn llythrennau italig).

Athro: *Plentyn 1, ti yw Bartimeus. Rwy'ti'n gardotwr dall. Rhaid i ti ddechrau cardota.*

(Plentyn 1 i actio cardota)

Athro: *Plentyn 2, ti yw Iesu. Rwy'ti'n cerdded ar y ffordd o Jericho i Jerwsalem.*

(Plentyn i gerdded – yn yr unfan os nad oes lle)

Athro: *Bartimeus, rwy'ti'n clywed sŵn ac yn gofyn beth sy'n mynd ymlaen.*

(Plentyn 1 i ofyn)

Athro: *Pawb arall, dywedwch wrth Bartimeus mai Iesu o Nasareth sydd wedi cyrraedd.*

(Y plant eraill i ddweud fod Iesu o Nasareth yno)

Athro: Bartimeus, rhaid i ti weiddi – "Iesu, tosturia wrthyf!"

(Plentyn 1 i ddweud hyn)

Athro: Pawb arall, dywedwch wrth Bartimeus am fod yn ddistaw.

(Y plant eraill i dawelu Bartimeus)

Athro: Bartimeus, rhaid i ti weiddi'n uwch, "Iesu, tosturia wrthyf!"

(Plentyn i ddweud hyn yn uwch fyth)

Athro: Iesu, rhaid i ti ofyn i Bartimeus beth mae o isio.

(Plentyn 2 yn gofyn)

Athro: Bartimeus, rhaid i ti ddweud dy fod am weld eto.

(Plentyn 1 i ddweud hynny)

Athro: Iesu, rhaid i ti ddweud – "Rwyf ti'n credu ynof fi. Mae dy ffydd di wedi dy wella!"

(Iesu i ddweud hyn).

Athro: Bartimeus, rwyf ti'n gallu gweld. Rwyf ti am ddiolch i Dduw, a dweud ei fod yn grêt.

(Plentyn 1 i wneud hynny)

Athro: Pawb arall, rydych chi newydd weld gwyrth. Mae angen i chi foli Duw, a chlapio a dweud Haleliwia! Hosanna!

(Y dyrfa i wneud hynny).

Trafodwch beth fyddai Bartimeus wedi ei weld am y tro cyntaf wedi iddo gael ei iacháu a fyddai'n ei wneud yn hapus iawn (ei deulu / blodau / lliwiau)? Beth fyddai'r plant yn ei golli fwyaf petaent yn methu gweld?

Trafodwch gyda'r plant a ydynt, fel Bartimeus, yn gofyn i Dduw am bethau mewn gweddi? Ydy'r hyn maen nhw'n gofyn amdano yn digwydd bob amser? Eglurwch fod Duw weithiau yn ateb gweddi, ond dro arall bydd yn gwneud i ni aros am ateb. Dro arall, bydd yn dweud 'Na', oherwydd mae'n gwybod beth sydd orau i ni.

Dysgu adnod

'Diolchaf i ti, Arglwydd, â'm holl galon,' (Salm 9:1)

neu,

'Addolaf di, ARGLWYDD, o waelod calon,' (beibl.net).

Lluniwch rythm ar gyfer yr adnod yna gofynnwch i'r plant ail adrodd yr adnod tra eich bod chi'n clapio'r rhythm. Yna, gofynnwch i'r plant ymuno gyda chi a chlapio'r rhythm. Ail adroddwch hyn ond gofynnwch i'r plant amrywio eu dull o guro'r rhythm, e.e. taro'r bwrdd / stampio'r llawr / tapio pensel ar y bwrdd / taro dwylo gyda'i gilydd / clicio bysedd / taro clun.

Gêm ychwanegol

Bydd angen rholyn cardfwrdd (er enghraifft y cardfwrdd a geir y tu mewn i rolyn o ffoil neu glingffilm) neu ffon a mwgwd. Dylai'r plant ffurfio cylch. Un plentyn i wisgo mwgwd a sefyll yng nghanol y cylch gan ddal y ffon. Y cylch i droi o amgylch y plentyn tra bo'r athro yn cyfri o 1 - 10 (neu gellir defnyddio cerddoriaeth). Y plentyn gyda'r mwgwd i bwyntio o'i flaen gyda'r ffon. Rhaid i'r person sydd gyferbyn â'r ffon afael ym mlaen y ffon a dweud enw'r plentyn yn y mwgwd – ond gall newid ei lais. Rhaid i'r person yn y canol ddyfalu pwy sydd yn gafael yn y ffon.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Iesu'n iacháu'r dyn dall tud.117

Tafleenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres B – Gwyrthiau

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 45: Pobl a gyfarfu Iesu

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Stori 42: Rydw i'n gweld

Llyfrau Stori

Iesu yn iacháu
Hei, rwy'n gweld

